Sir Pen-y-bont

# Cynllun Rheoli Cyrchfan 2018-2022





**Mawrth 2018**

## Cynnwys

Contents ........ 2
1. Tourism in Bridgend ........ 3
2. What is Destination Management? ........ 3
3. Aim and priorities ........ 4
4. What we want to achieve ........ 5
5. How we'll move forward ........ 5
6. Performance Management ........ 6

## 1. Twristiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Gall twristiaeth gyfrannu – ac mae'n cyfrannu – at ffyniant lleol ac ansawdd bywyd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y mae'r naill a'r llall yn nodau allweddol i Lywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ôl data Model Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM) ar gyfer 2016, mae twristiaeth eisoes yn ychwanegu refeniw y mae ei ddirfawr angen at yr economi leol (£329.76m) ac yn cefnogi dros 4,200 o swyddi. Hefyd, mae twristiaeth yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi gwasanaethau a seilwaith trawsbynciol sydd o fudd i bobl leol, e.e. cysylltiadau cludiant, yr ystod o siopau a gwasanaethau, cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol; a
- Helpu i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o'r Sir i'r byd y tu allan sydd, yn ei thro, yn gallu denu buddsoddiad a gwneud i bobl deimlo'n well am y lle y maent yn byw ynddo.

Fodd bynnag, ni ellir gadael i dwristiaeth ddatblygu'n ddirwystr. Rhaid rheoli ei datblygiad mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn cynyddu i'r eithaf y manteision i ffyniant hirdymor a lleihau'r effeithiau negyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am dwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ei heffaith economaidd a'i chyd-destun strategol yn sail dystiolaeth y Cynllun Rheoli Cyrchfan, 2018.

## 2. Beth yw Rheoli Cyrchfan?

Proses yw Rheoli Cyrchfan o weithio tuag at gydgysylltu pob agwedd ar gyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelydd, gan ystyried anghenion ymwelwyr, trigolion lleol, busnesau a'r amgylchedd. Mae'n ddull systematig a chyfannol o wneud i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr weithio fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae'n cofleidio'r syniad o gynaliadwyedd, gan ganolbwyntio ar dwristiaeth sy'n dwyn budd economaidd, sy'n sensitif i'r amgylchedd, a groesewir gan y gymuned ac sy'n creu ymwelwyr bodlon. Mae darparu profiad o ansawdd ar gyfer yr ymwelydd yn flaenoriaeth.

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ddatganiad o fwriad i reoli cyrchfan er budd twristiaeth, dros gyfnod penodol o amser, sy'n nodi'r ffyrdd y gall gwahanol randdeiliaid gydweithio i ddwyn effaith gadarnhaol.

Cynllun yw hwn felly sy'n ceisio dwyn ynghyd yr holl rai sydd â buddiant yn nyfodol twristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn cynnwys:

- Y sector preifat, sy'n gyfrifol am redeg eu busnesau eu hunain sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a diwallu anghenion beunyddiol ymwelwyr
- Adrannau Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am ystod o wasanaethau sy'n effeithio ar reoli cyrchfan
- Y gymuned leol sydd â buddiant mewn cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth ac effeithiau posibl ar eu ffordd o fyw

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer rheoli'r weledigaeth o ran twristiaeth hyd at 2022. Fe'i cefnogir gan y Cynllun Gweithredu Cyrchfan sy'n nodi gweithgareddau penodol a'r Sail Dystiolaeth sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer y Cynllun hwn.

## 3. Nodau a blaenoriaethau

Rydym yn dymuno:

> *Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n dathlu cryfderau unigryw'r lle, yn cefnogi swyddi, yn creu cyfleoedd busnes ac yn gwella'r ystod o amwynderau sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol.*

Mae hyn yn golygu datblygu economi ymwelwyr hyfyw, arloesol a chynaliadwy sy'n gydnaws â'r ardal ac yn dwyn manteision net i'r boblogaeth leol am genedlaethau i ddod.

Hefyd, rydym am ddwyn budd i economi ehangach y Fwrdeistref Sirol trwy gryfhau delwedd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a datblygu cysylltteddau â sectorau eraill yn yr economi.

I gyflawni hyn byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

**1. Cefnogi datblygiad y cynnyrch twristiaeth**

Cefnogi llety gwell
Cefnogi atyniadau gwell

**2. Cefnogi datblygiad y seilwaith twristiaeth**

Gwella'r adnodd arfordirol
Buddsoddi yn yr aneddiadau
Gwella'r adnodd Cefn Gwlad
Gwella cludiant a seilwaith cysylltiedig ar gyfer twristiaeth
Datblygu adnoddau dynol twristiaeth

**3. Codi proffil Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a denu mwy o ymwelwyr iddi**

Hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Datblygu portffolio amrywiol o ddigwyddiadau

Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- **Cynaliadwyedd**. Sicrhau bod gan dwristiaeth ddyfodol hirdymor hyfyw a bod y manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn gorbwyso'r costau.
- **Ansawdd**. Ymegnïo i wneud pethau'n dda a gwella'r profiad ar y cyfan i'r ymwelydd fel y llwybr i lwyddiant.
- **Budd lleol**. Sicrhau bod pobl leol a busnesau lleol yn cael budd o dwristiaeth ac yn ei gweld fel nodwedd gadarnhaol ar fywyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- **Partneriaeth**. Cydweithio i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon boed rhwng awdurdodau ac asiantaethau neu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- **Unigrywiaeth**. Manteisio ar adnoddau naturiol a dynol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i greu rhywbeth arbennig sy'n gwneud y cyrchfan yn wahanol i ardaloedd eraill ac yn rhoi mantais iddo.

Gwyddom y bydd llawer o heriau, ond ynghyd â'n sefydliadau partner rydym yn teimlo:

- Bod gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr arlwy amrywiol, ddiddorol a llawer o botensial o ran twristiaeth ond nad yw'r arlwy'n taro deuddeg eto.
- Bod potensial i ddatblygu chwaraeon dŵr, golff a gweithgareddau awyr agored eraill ymhellach.
- Bod brwdfrydedd ynglŷn â photensial y Fwrdeistref Sirol ac rydym yn credu bod dyfodol i dwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Bod dyhead i weithio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth i gynnig profiad gwell i ymwelwyr.

## 4. Yr hyn y mae arnom eisiau ei gyflawni

Y targed yw twf o 2% ar y cyfan bob blwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf yn ôl ffigyrau STEAM.

## 5. Sut y byddwn yn symud ymlaen


Mae cyfleoedd ar gyfer cydgysylltu a chydweithio mwy effeithiol ym maes twristiaeth. Rydym am weld cydweithio a chyfathrebu agosach rhwng yr amryw randdeiliaid a'r strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol. I wneud hyn rydym wedi datblygu fframwaith rheoli â blaenoriaethau clir, sef:

### *5.1 Cefnogi trefniant partneriaeth rheoli cyrchfan addas i'w ddiben*

Bydd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan yn cynnwys trefniadau cydweithio agos rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Cymdeithas Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr a Croeso Cymru a chysylltedd a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid ehangach. Bydd gan y rhai sy'n rhan o hyn rôl allweddol o ran cynllunio gweithgarwch, pennu blaenoriaethau, mynd i'r afael â materion a chydgysylltu camau gweithredu.

Bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu swyddogaethau ysgrifenyddiaeth ar gyfer trefniadau ac yn trefnu'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol. Mae Ffigur 1 yn dangos y cysylltedd rhwng partneriaid.

Ffigur 1: Cydweithio rhwng asiantaethau



### *5.2 Cefnogi trefniadau partneriaeth ar lefel is na'r cyrchfan*

Rydym yn cydnabod angen parhaus i fabwysiadu dull rheoli cyrchfan ar lefel is na'r cyrchfan. Bydd rheoli gweithgareddau ar y dŵr a'r traethau'n dal i gael y flaenoriaeth uchaf, yn enwedig wrth i nifer y defnyddwyr gynyddu. Felly byddwn yn parhau i gefnogi'r Bartneriaeth Arfordirol. Bydd y bartneriaeth hon yn cynnwys darparwyr gwasanaethau a bydd yn gyfrifol am roi cymorth i gynllunio, datblygu a rheoli'r parth arfordirol a chynghori ynghylch hyn.

Lle mae trefniadau partneriaeth eisoes yn bodoli, er enghraifft yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd gwledig, byddwn yn amlygu cyfleoedd twristiaeth lle y bo'n berthnasol ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i gyflawni camau gweithredu ym maes twristiaeth yn hytrach na chreu trefniadau newydd.

### *5.3 Cefnogi twf Cymdeithas Twristiaeth leol*

Bydd Cymdeithas Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i esblygu. Ystyrir ar hyn o bryd mai ei blaenoriaethau yw:

- Cynyddu aelodaeth ar draws pob sector a rhan o'r Fwrdeistref Sirol
- Darparu cyfrwng ddwyffordd ffurfiol rhwng y sector preifat, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus
- Darparu cyfle i aelodau rwydweithio
- Cyflwyno cynnwys i dîm Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer marchnata'r cyrchfan
- Gwerthuso'i gweithgareddau

Bydd Tîm yr Economi ac Adnoddau Naturiol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi anogaeth i gydgysylltu gwaith mewnol sy'n ymwneud â Rheoli Cyrchfan yn fwy a chodi ymwybyddiaeth o Reoli Cyrchfan ym mhob rhan o CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

## 6. Rheoli Perfformiad

Rhaid i reoli cyrchfan fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth drylwyr am y diwydiant lleol gyda llwyddiant yn cael ei fonitro gan ddefnyddio set o ddangosyddion perfformiad.

### *6.1 Mesur maint a gwerth twristiaeth*

Y model cyfredol a ddefnyddir i asesu'r effaith economaidd yw STEAM. I ategu hyn byddwn yn datblygu dangosyddion lleol a fydd yn rhoi tystiolaeth bellach o raddfa a thwf busnesau, gan gynnwys:

- Ffigyrau meddiannaeth llety fesul sector a mis, yn seiliedig ar sampl gyson o ddarparwyr y gofynnir iddynt rannu eu ffigyrau yn gyfnewid am feincnodi eu busnes yn erbyn gweddill y sampl
- Niferoedd misol yr ymwelwyr ag atyniadau a gweithgareddau, yn seiliedig ar sampl gyson o weithredwyr
- Defnyddwyr Llwybr yr Arfordir a'r Llwybr Celtaidd yn seiliedig ar gyfrifon yr ymwelwyr mewn lleoliadau allweddol
- Arolygon ar draethau ac mewn meysydd parcio cysylltiedig a ffigyrau defnydd harbwrs

### *6.2 Arolygon Bodlonrwydd Cwsmeriaid*

Pan gyfyd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, bydd arolygon lleol yn cael eu cynnal mewn perthynas â bodlonrwydd ar y cyrchfan ar y cyfan yn ogystal ag ymchwil sy'n ymwneud yn benodol â lleoliad gweithgareddau.

Mae Tabl 1 isod yn amlygu sut y bydd y camau gweithredu yn y Fframwaith Rheoli Cyrchfan yn cael eu cyflawni, pwy sy'n gyfrifol a'r goblygiadau o ran adnoddau a risg.

**Tabl 1: Fframwaith Rheoli Cyrchfan**

| Pwyntiau Gweithredu | Blaenoriaet | Cyfnodau (blynyddoed | Gofyniad o ran | Lefel y risg | Asiantaeth arweiniol | Asiantaethau cynorthwyol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Creu strwythurau effeithiol ar gyfer Rheoli Cyrchfan** | | | | | | |
| Cefnogi trefniant partneriaeth rheoli cyrchfan addas i'w ddiben | 1 | 1-5 | I | I | CBSP | CTP, CC |
| Cefnogi twf y Gymdeithas Twristiaeth | 1 | 1-5 | I | I | CTP | CBSP, CC |
| Cefnogi trefniadau partneriaeth ar lefel is na'r cyrchfan | 1 | 1-5 | L | I | CBSP | Holl adrannau CBSP. |
| **Monitro Perfformiad** | | | | | | |
| Mesur maint a gwerth twristiaeth | 1 | 1-5 | I | I | CBSP | CC, CTP, SP |
| Cynnal arolygon Bodlonrwydd Cwsmeriaid | 2 | 2-5 | I | I | CBSP | CBSP, CTP, SP |
| Monitro â dangosyddion perfformiad allweddol | 1 | 1-5 | I | I | CBSP | CTP, SP, CC |

| | |
|---|---|
| I | Adnodd/risg isel |
| CTP / SP | Cymdeithas Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr / Sector Preifat |
| CBSP | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| CC | Croeso Cymru |

### *6.3 Monitro camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cyrchfan*

Er mwyn mesur cynnydd gyda gweithgareddau yn y Cynllun Gweithredu Cyrchfan mae'n bwysig dethol dangosyddion perfformiad penodol ar gyfer pob cam gweithredu y gellir eu cymharu dros amser. Manylir ar y rhain yn y Cynllun Gweithredu Cyrchfan.